

091/51-A

CYMRAEG - IAITH GYNTAF
DYFARNIAD UWCH ESTYNEDIG
LLYFRYN DARLLEN AR GYFER ADRAN A

A.M. DYDD GWENER, 30 Mehefin 2006

(3 awr)

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Wrth ateb y cwestiynau disgwylir i chi:

- arddangos a chymhwyso dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y Gymraeg;
- dadansoddi'r deunydd a'i werthuso'n dreiddgar;
- datblygu eich syniadau a rhesymu mewn modd treiddgar, gwreiddiol a strwythuredig;
- rhoi sylw i gywirdeb iaith;
- ysgrifennu yn eich geiriau eich hunan;
- trafod gwahanol safbwyntiau a dangos gwreiddioldeb barn;
- defnyddio tystiolaeth i gyfiawnhau casgliadau;
- dyfynnu'n bwrpasol.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill yn yr arholiad hwn. Bydd cyfle i chi wneud nodiadau yn y llyfryn nodiadau a ddarperir i chi.

TUDALEN WAG

Cynnwys

Adran A - Gorfodol

1. Detholiad o '*Gwaddol*' Ceri Wyn Jones **Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Meirion a'r Cyffiniau** Gwasg Dinefwr dros Lys yr Eisteddfod Genedlaethol (1997)

Adran B - Gorfodol

2. *Blwyddyn Lwyddiannus* D.J. Williams **Detholiad o Storiau'r Tir** (1962)
(Trwy gydweithrediad Gwasg Gomer)

Adran C - Dewiswch un o'r canlynol:

Naill ai,

3. Detholiad o **Martha, Jac a Sianco** Caryl Lewis (2004)
(Trwy gydweithrediad Y Lolfa)

Neu,

4. Detholiad o '**Sna'm Llonydd i' Ga'!**' Margiad Roberts (1987)
(Trwy gydweithrediad Gwasg Gomer)

Adran CH - Dewiswch un o'r canlynol:

Naill ai,

5. *Aros a Myned* John Ceiriog Hughes (1832-1887) **The Oxford Book of Welsh Verse**
Gwasg Prifysgol Rhydychen

Neu,

6. Detholiad o awdl '*Y Cynhaeaf*' Dic Jones (Awdl fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1966) **Hoff Gerddi Cymru** (Trwy gydweithrediad Gwasg Gomer)

ADRAN A

Gorfodol

1. Detholiad o 'Gwaddol' Ceri Wyn Jones.

Ymateb a sylwadau Alan LlwydGwefan **Canrif o Brifwyl** BBC Cymru'r Byd

Dyma awdl arall sydd yn dangos y newidiadau cymdeithasol ac economaidd a gafwyd o fewn hanner can mlynedd. 'Roedd y Prifeirdd Geraint Bowen a Dic Jones wedi gallu creu portread rhamantaidd, delfrydol ac oesol-gadarn o'r amaethwr a'i fyd, ond erbyn hyn rhaid oedd gofyn y cwestiwn: 'Tra fo dynoliaeth a fydd amaethu?' Mae Ceri Wyn Jones yn ymdrin â'r gofidiau a'r anawsterau a oedd yn llethu ffermwyr ar ddiwedd y ganrif, baich a oedd yn drech na llawer ohonynt.

GWADDOL

Clec ar ôl clec ydyw'r clos,
a'i frigau'n friwiau agos
i'r hon a wêl fore'n nos.

Sŵn morthwyl yr ocsiwn yw,
ergydio'r gwagio ydyw.
Hoelio arch sydd yn ei chlyw.

Mae hanes ymhob munud,
a'r fam, nad yw'n fam, yn fud:
gwyrâ'i ffordd o gaeau'r ffws
i ddistawrwydd y storws.

Wyneb ei mab yw y man:
yno mae'n cofio'r cyfan . . .

* * * * *

CLEC!

Adlef. Bref. Bolltia'r brain.
Gwrychoedd yn sgathru-sgrechain.
Beudy yn diasbedain.

Uwch ffermydd llonydd gerllaw,
awel y dryll a eilw draw
yn ddi-osteg o ddistaw.

Os clywodd John Cilbronne,
yn ddi-hid y clywodd e'r
baril yn hollti'r bore.

Clywodd ei fam – heb amau,
ac, i guriad cleciadau
ei gweill, aeth ymlaen â'i gwau ...

* * * * *

Poeri. Estyn papurach
o'r dreiriau llawn biliau bach.
Ennyd mud. Yna mae o'n
bwrw'i boer ar y beiro,
cyn dweud, heb ei ddweud, ei ddiig
ar y nodyn crynedig.

Gwyrâ'i bladur sgribliadau
yn frith drwy ei famiaith frau:
mae'r eirfa lom ar fil hen
yn ddiwaelod o ddalen.
Heb y rhegi barugoer
mae'n cau ei waith mewn inc oer:
crynhoi ei gancr a wna,
a'i waddoli'n waedd ola'.

Naddodd, mewn 'sgrifen eiddil,
ofn byw ar hyd cefn y bil,
a rhoi, mewn brawddeg traed brain,
y gwae rhy drwm i'w gywain;
y gwae hir mewn saith geiryn –
'Mam, yn y wir, sa 'i moyn hyn.'

* * * * *

Gwaddolwyd iddo had ei gyn-dadau,
o'r tiroedd rhent i'r tir oedd â'r heintiau;
o'r weiren bigog i rawn y bagiau;
o'r wawr gelwyddog i'r hen weirgloddiau.
Gwaddol yr unigeddau a gafodd.
Ni ddewisodd. Ac nid oedd ei eisiau.

Rhygnu mileniwm yw'r ugain mlynedd
ers i'w dad, ym Mharc-Rhiw, lithro i'w ddiwedd:
ugain aredig yw ei anrhydedd
yn gwaedu ar gerrig didrugaredd.
Ni wêl, fel bardd, ymgeledd y llethrau;
a rhygna'n ddieiriau ei gynddaredd.

Â hi'n dywydd wyna hyd ei ddannedd,
 yng ngwingo oenig ni chlyw gynghanedd.
 Ni wêl ryfeddod yn ei ddinodedd,
 na'r cwysi union yn creu cyseinedd.
 Gwawrio byw yw agor bedd – yn nhir poen:
 o'i fêr i'w groen fe wÿr y gwirionedd.

Bore arall fel cydio ysgallen.
 Gwawr arall heb osgoi pigau'r weiren
 yn y bwlch didostur sy'n rhydu'r wên,
 drwy'r gwynt a'r glaw sy'n pydru'i gystrawen.
 Poera a rhega yng nghlyw'r pren – a'r sêr,
 a rhannu'i bader â'r un bïoden.

Ar ei dir unig, aradr anhunedd
 a dyrr yn ddyfnach-dduach-ddiddiwedd,
 nes troir y tir yn gwysi'r atgasedd
 o fis i fis, fel rychau ei fyseidd.
 Dwy frân uwchlaw celanedd yw'r llygaid,
 mor oer â'r enaid ym maw'r ewinedd.

* * * * *

Mynwent y gwagio pentan ydyw hon,
 a down o'r tai allan
 a'r storws i ystwyrian
 uwch yr arch – a chwarae rhan.

Gwisgwn ein galar parod; gwisgo bro
 mewn siwt brân anorfod:
 dagrau'n ystrydebau'n dod –
 ond neb yn ei adnabod.

Ni wyddom ei flynyddoedd ar y tir
 y tu hwnt i'w wrychoedd:
 alltudiaeth fel hollt ydoedd,
 hollt lydan yr hunan oedd.

Y bedd yw'n hetifeddiaeth;
 esgyrn yw ein cynhysgaeth.
 Tywodyn yw'n treftadaeth.

* * * * *

O rigolau awr galar,
 o ffiniau'r bedd, ffown i'r bar.
 Ond wedi rhethreg-rhegi
 ymson ein hanesion ni,
 wedi stori am dda stôr –
 cyfrolau'r seibiau sobor.

Ar y bar, gwydrau'n aros,
 gwydrau doethinebau'r nos.
 Ddracht rôl dracht mae dau neu dri
 dywedws' yn ei dweud-hi;
 beint wrth beint yn ail-greu byd
 y gŵr ym mreichiau'r gweryd;

'Dyn nabod-neb, dyna oedd,
 a boi od i bawb ydoedd,'
 a boerodd John Cilbronne
 wrth Hughes yn ei araiith e'.
 Â'i lwnc claddodd Nant-y-Glog
 eu meudwy o gymydog:
 'Ei fyd i gyd oedd ei gae –
 yn wahanol i ninnau.'

Yn y gwaelod nas gwelir,
 gwydr gwag a geidw'r gwir.

* * * * *

Wedi hanesion ei fyd ynysig,
 fe drown i gyd i'n cleien bellennig,
 yn ôl i rydu yng nghlwy'r aredig,
 yn ôl i waedu yn anweledig.
 Trown i'r acer lawn cerrig – a dyled,
 ac i gymuned o gamau unig.

Clec!
 Adlef. Bref. Bolltia'r brain.
 Gwrychoedd yn sgathru-sgrechain.

ADRAN B

Gorfodol

2. *Blwyddyn Lwyddiannus* D. J. Williams

BLWYDDYN LWYDDIANNUS

HANNER can swllt y flwyddyn ydoedd rhent Pant y Bril, a thalai Rachel ef bob pen tymor o'r llo. Yr oedd dydd y fuwch yn dod â llo felly yn un o ddyddiau mawr y flwyddyn iddi hi – y mwyaf ond un, sef dydd ei werthu. Unwaith yn unig y methodd y fuwch ei thymp; ac o'r braidd y daeth Rachel dros y flwyddyn honno o ran ei hamgylchiadau hyd ddiwedd ei hoes. Fynyched y soniai am y pris tebygol a gâi am y llo wedi unwaith gael ei ben du, twp, i ddal pen rheswm â hi yn y crit, fel y gallai'r llefydd o gwmpas, perchenogion lloi lawer, rai ohonynt, bron brisio llwydd neu aflwydd blwyddyn yn ôl yr arian a gâi Rachel am ei llo hi. Os câi hi ddeuddeg a deugain a chwech amdano, byddai'n flwyddyn lwyddiannus, a phawb wedi gallu talu'r ffordd. Pymtheg a deugain, a byddai'n flwyddyn dda odiaeth, ac ambell briodas annisgwyl yn digwydd. O'r ochr arall, os trewid llaw fechan, galed Rachel am saith a deugain a whech – yna, blwyddyn wael. A phe digwyddai i'r pris syrthio cyn ised â phump a deugain byddai'n hen bryd meddwl am gynnal cwrdd ymostyngiad.

Meddwl yn ddyfal am hyn yr oedd Rachel wrth wau ei hosan yn yr ardd, a thes anwadal Ebrill yn gwresogi ei grudd fechan, writgoch, yn union wedi cymryd ei diferyn cawl i ginio. Yn ei hymyl yr oedd Cora â'i chynffon fach yn fodrwy felen ar ei chefn, ac wrthi'n chwyrn yn ffroeni'r trywydd hwn a'r trywydd arall. Rhywsut, yr oedd yr aroglau dryslyd hyn yn fwy blasus ganddi na gweddillion pryd bwyd ei meistres a gawsai o'i llaw beth amser ynghynt. Yr oedd y gwanwyn a'i gyfaredd yn y gwynt. Gwelai Rachel y blagur ifainc yn ymagor ymhob man – yn y coed cyrens a'r gwsberis a'r llwyn rhosynnau cochion wrth gefn y tŷ. Sylwai arnynt oll, gwyrth y deffro sydyn, fel pe nas gwelsai erioed o'r blaen, gan droi'r cyfan, yn ddiymwybod, ati hi ei hun. A oedd gobaith newydd fel hyn iddi hithau? Ynteu parhad o'r Hydref hir hwnnw a ddechreusai ganol haf ei bywyd, pan adawyd hi bymtheng mlynedd yn ôl yn weddw ifanc, ddi-blant, i alaru ar ôl gŵr eiddil? Pymtheng mlynedd o grafu caled â'i deng ewin am damaid o fwyd: ie, ac o wasgu corff ac enaid lawer tro hefyd. Buasai byw orau y gallai, oddi ar hynny. Nid yn berffaith, bob amser efallai. Ond dyna Dafydd frenin, fel y clywsai ar bregeth y Sul cynt, yn syrthio ac yn edifarhau ar ôl hynny, a chael maddeuant o'i bechodau. Rhaid ei bod hithau hefyd wedi cael maddeuant llwyr y prynhawn hwnnw, oherwydd teimlai rywsut yn rhyfeddol o iach a sionc ei hysbryd, heb fod ronyn yn edifar ganddi am ddim a wnaethai erioed.

Edrychodd arni ei hun: siol fach wen ar ei gwar, ffedog siec dan bletiau bras yr haearn smwddio, a'i dwy esgid fach, gan taw sut y gellid cyfrif am hynny, yn disgleirio am ei thraed. Rhoesai gip brysiog yn y drych wrth fynd allan. Yr oedd y croesau mân, brawychus hynny, dan ei dau lygad yn llai amlwg nag y gwelsai hwy lawer tro. A chyda'r gwres tyner a'r bywyd newydd, iraidd yn ymsaethu drwy bob dim, ysbonciodd ei hysbryd yn ôl lawn deng mlynedd. Yr eiliad nesaf fe'i cafodd ei hun rywsut yn astud wrando'r bregeth unwaith eto. Gwridodd – heb wybod yn iawn paham. Yna dilynodd gymhelliad bron mor anesboniadwy â hynny i fynd yn ôl i'r tŷ i wisgo'i chlocs a'i ffedog ganfas, a glanhau o dan y mochyn. Yr oedd

hen angen am hynny, fel y sylwasai'r bore hwnnw wrth roi tamaid o fwyd iddo. Ond cyn penderfynu dim y naill ffordd na'r llall, wele lais garw a'i dychrynodd yn enbyd am eiliad, yn ei chyfarch dros glwyd yr ardd. Aeth Rachel yn dalp o rinwedd oer trwyddi.

"Helo'r hen groten, shwd wyt ti?" meddai'r llais â rhyw brin awgrym o floesgni diod ynddo. "'Rwy wedi dod heibio i brynu dy hen lo bach di 'leni yto."

"Dyna'r hen lwff wedi dod fel 'r own i'n ofni," meddai Rachel wrthi ei hun, gan geisio camu'n ddistaw bach y tu cefn i'r llwyn cyrens tew yn ymyl. Wrth groesi disgynnodd ei llygaid gyda gradd o gywilydd ar ei dwy esgid fach, loyw.

"Ho-ho! Whare sbei, ie fe'r, un fach? Dere ma's i fi ga'l dy weld di. 'Rwyt yn edrych yn bert ofnadw'r prynhawn yma. Wyt, byth na chyffrwy," a nesaodd y siaradwr gan bwyso'i ddwy benelin yn hamddenol ar halsen ucha'r lliidiart. Y mae'n amlwg y gwyddai fod unig fynedfa'r ardd yn ei ddwylo ef, pe digwyddai gwarchae. Gwyddai hefyd fod llawer sofran a hanner sofran felen yn gorwedd yn gynnes ym mhlygion ei bwrs hir, llwyd yn nyfnderoedd poced ei drowser. Hen gadno bore ydoedd Teimoth a ddôï heibio bob gwanwyn ymhell o flaen blodau'r eira, i holi hynt y cyntaf-anedig ymhlith lloi bach yr ardal.

"'Dydw i ddim yn mynd i werthu'r llo bach 'leni i ti, nag i neb arall," meddai Rachel yn gwta, dan orfod dod allan o'r tu cefn i'r llwyn cyrens, a'i dicter erbyn hyn wedi codi'n wrid poeth i'w hwyneb. "Wedyn, cerdd oboitu dy fusnes."

ADRAN C

Naill ai,

3. Detholiad o **Martha, Jac a Sianco** Caryl Lewis

DAETH WIL TYDDYN GWYN â'r arad draw ben bore. Gwyliodd Martha, Jac ac ynteu'n siarad ar y clôs drwy'r ffenest. Roedd y ddau ar goll mewn cwmwl o fwg baco. Dyn byr oedd Wil ac oedran wedi ei blygu bron yn ddau fel llyfr. Roedd cap stabal am ei ben, a hwnnw ar dro, a phan fyddai eisiau codi sbid a symud yn gyflymach byddai'n ei droi fel bod y pig yn wynebu am yn ôl, cyn parhau ar yr un cyflymdra'n union. Byddai wastad yn gwisgo gwasgod, crys a thei er ei fod yn byw ar ei ben ei hunan a byth yn gweld neb o wythnos i wythnos. Roedd sgidie lliw mwstard am ei draed.

Gwelodd Martha, Jac yn estyn pecynnau o faco mas o'i boced a'u gwthio tuag at Wil. Cymrodd hwnnw'r offrwm a'u rhoi ym mherfeddion ei boced gan nodio'i ben. Dyna oedd y tâl blynyddol am fenthyg yr arad. Doedd dim digon o waith yn Graig-ddu i warantu prynu un. Ond dim dyna ddiwedd y pwyth. Lapiodd Martha'r cacene mewn clwtyn a'u rhoi mewn bocs cardbord. Cerddodd tuag at y dynion. Nodiodd Wil arni heb ddweud gair. Agorodd Martha ddrws ei dractor a gosod y bocs ynddo wrth ochr y sedd. Clepiodd y drws wrth ei gau. Nodiodd Wil unwaith eto a gwylio Martha'n mynd yn ôl i'r tŷ. Torrodd Jac ar draws ei fyfyrddod.

“Pan gyfrest ti dy ddefed pyddwrnod, welest ti mo'r tri oen swci na ddihangodd o'r ca' bach llynedd?”

Siglodd Wil ei ben, “Nawr te,” meddai'n bwylllog, “gadewch i fi feddwl.”

Roedd siarad â Wil fel pilo winwnsyn. Roedd rhaid mynd o dan sawl haenen o groen cyn cyrraedd ei ganol.

“Dwi'n gwbod mai am draw aethon nhw,” wedodd Jac gan roi cyfle arall iddo gyfadde.

“Falle bod nhw wir,” medde Wil gan siglo'n ôl ac ymlaen ar ei sodlau.

“Rhai cryfion. Rodd gra'n da arnyn nhw. Rodd Sianco wedi bod yn eu bwydo nhw am fisodd. Ma lla'th yn costu os nad yw e'n mynd mewn i'r tanc.”

Teimlai Wil lawnder braf ei boced, lle'r oedd wedi stwffio'i Golden Virginia. Meddyliodd am y cacennau ffrwythe a oedd yn y tractor. Falle bydde tarten i ga'l na, neu sgons ne bice pregethwr. Ers i'w fam farw byddai'n gorfod bwyta sothach o gacs y siope.

“Ffeili deall 'dw i,” ychwanegodd Jac, “ffeili deall lle aethon nhw heblaw draw atat ti.”

Tynnodd Wil unwaith eto ar ei sigarét. Chwythodd y mwg yn ara bach mas drwy'i drwyn. Taflodd y bonyn i'r llawr a'i wasgu'n bwylllog â'i droed dde.

“Chi'n gwbod be ma nhw'n weud, Jac.” Oeddod Wil yn ei ffordd arbennig a chlosio at glust Jac. “*Good fences make good neighbours.*”

Fflachiodd tymer Jac ond gwyddai y byddai angen benthg beler Wil arno yn yr haf, felly pwyll oedd pia hi.

* * *

BENTHYCodd Jac beiriant lladd gwair Wil, ac o fewn bore roedd sawl cyfer bach ar lawr. Rhbinodd Jac a gwasgaru am dridie nes bod y rhesi gwair yn ysgafn ac yn sych fel tanwent. Byddai Jac yn cymryd gofal mawr a balchder mewn cywen, gan feddwl ei fod yn dipyn o hen law arni. Bore 'ma, roedd e'n cerdded y rhbine'n llyfnhau a gwneud yn siŵr nad oedd dim twmpathau o wair mewn manau a allai dagu'r peiriant. Roedd e'n plygu weithiau i godi llond côl o'r gwair a'i gario fel petai'n ei fagu, a'i ollwng nes mla'n yn y rhes. Gallai fod yn sicr wedyn nad oedd dim byd arall yn y rhbine chwaith, fel y digwyddodd rai blynyddoedd yn ôl pan ymddangosodd darnau o haearn yn y rhesi gan falu perfedd y peiriant yn rhacs. Bu'n rhaid i Jac dalu'n ddrud am ei drwsio a rhaid bod rhywun wedi llwyddo i ddial yn ei erbyn.

Cerddodd Jac yn ara, gan blygu weithiau i godi corff rhyw anifail anlwcus a oedd wedi cael ei ddal a'i falu gan gyllyll y peiriant, gan ei daflu gerfydd ei goesau i'r claw'. Doedd dim iws balo'r adeg hon o'r bore, achos roedd yn rhaid aros i'r haul losgi gwllith y bore yn gynta. Roedd y borfa noeth rhwng y rhesi yn ole ac yn llachar yn ei newydd-deb, yn debyg i wlân byr glân y defed ar ôl eu cneifo. Dyma ei hoff adeg o'r flwyddyn, cael cerdded y rhbine a pherffeithio'r stode. Bydde unrhyw un yn medru gwneud seilej, ac roedd y contractwyr eisoes wedi bod yn sŵn ac yn weiddi i gyd, ond roedd cywen gwair yn rhywbeth hollol wahanol.

Flynnydde'n ôl, roedd llwyth o bobl yn dod i helpu, ond nawr roedd pawb cyfagos cyn hened â nhw, a chan nad oedd plant yn Graig-ddu, roedd bechgyn ifanc yr ardal yn ddierth. Bydde mam Wil yn ei anfon draw, a sawl un arall yn cael eu hala draw 'fyd, gan gynnwys Dai One Eye, Eilyr Pontfan, Gafryw Ucha a Tomi. Roedd hwnnw wedi colli'i goese yn y rhyfel, ond roedd e'n dod yn handi i ddreifio'r hen fan roedd Dat wedi'i phrynu flynydde'n ôl. Bydde fe'n dilyn y bois rownd y caeau ac yn rhoi gole iddyn nhw pan fydde'n rhaid gweithio'n hwyr. Wrth roi hen gotie dan ei din, a dau frwsh llawr dan ei geseiliau, roedd e'n galler dreifio cystal â neb. Roedd yn rhaid bodloni ar dorri tamed ar y tro erbyn hyn gan nad oedd help ar gael.

Neu,

4. Detholiad o 'Sna'm Llonydd i' Ga'l!' Margiad Roberts

Wyna

'Fydd petha'n well 'leni, gei di weld.' Cysurodd Marian ei gŵr yn obeithiol.

Roedd y sied ddefaid yn newydd. Ond llinyn bêl oedd yn ei dal hi hefo'i gilydd, fwy neu lai. Roedd gwraig y saer coed wedi cael babi ac roedd weldar y dyn weldio wedi torri ar ganol y job a hwnnw wedi gorfod mynd i John O'Groats i nôl rhyw ddarn iddo. Roedd Ifor yn dal i ddisgw'l iddo fo ddŵad yn ei ôl ers misoedd! Ond hyd nes y dychwelai'r dynion roedd yn rhaid dibynnu, yn ôl yr arfar, ar linyr bêl. Ac hefo llinyn bêl y clymodd Ifor rhyw hen ddôr ar dalcan y sied, gan ddisgw'l y byddai'r saer coed yn dŵad yn ei ôl i roi drws yno rhywbryd yn y dyfodol. Ond tan hynny, byddai'n rhaid i'r ddôr wneud y tro.

Roedd y gwanwyn yn gyfnod prysur a pheryglus iawn. Nid yn gymaint i'r pedwar cant a hannar o ddefaid. Ond i Ifor! Hwn oedd y tymor, yn anad yr un arall, a wnai i Ifor deimlo fod defaid yn cael hwyl iawn ar ei ben. Eu hwyl fwya' nhw ar yr adag hon o'r flwyddyn oedd marw! Hynny, wrth gwrs, ar ôl bwyta llond eu bolia am flwyddyn gron a chael pob sylw a oedd yn ddyladwy i ddafad. Roeddau nhw wedi ca'l gwerth cannoedd o bunnoedd o ddôsus. Roeddau nhw wedi cael eu chwistrellu hefo pob math o sothach drud at bob dim nes yr oedd yn syndod nad oedd eu crwyn nhw'n gollwng! Dilynodd Ifor gynghorion amball drefeiliwr ac amball gynghorwr o'r Weinyddiaeth ac hyd yn oed arbrofi hefo amball ddôs newydd. Ond 'doedd o ddim mymryn haws na phe byddai'n eu dôshio nhw hefo Lwcosêd! Bob Gwanwyn 'run fath, roedda nhw'n marw.

Ar wal y sied gosododd Ifor resi ar resi o boteli fffisig. Fffisig i'w injectio, fffisig i'w ddôshio, fffisig i'w chwistrellu a phob math o eli a thabledi a oedd ar ga'l yn y byd. Ond roedd o'n gw'bod yn barod cyn i'r wyna ddechra na fyddai'r moddion rheiny'n da i ddim unwaith y byddai dafad wedi cymryd yn ei phen i farw!

Bwydodd Ifor y defaid. Ond tra roedd y rhan fwya yn cerddad yn ddigwilydd, reibus ar ei draws ac yn slaffio'u siâr eu hunain a phawb arall, roedd ambell un yn gwrthod bwyta o gwbl! Dafad fynydd Gymreig oedd un o'r rheiny â 'styfnigodd, ac roedd yn well ganddi lwggu ei hun i farwolaeth na bwyta nyts a seilej yn y sied. 'Doedd dim i'w wneud felly ond ei throi hi allan at y defaid er'ill i'r cae y tu ôl i'r sied.

Roedd y defaid yn y cae i wyna sbelan yn ddiweddarach na'r rhai yn y sied. Felly, ar y defaid yn y sied yr oedd golwg barcud Ifor ar hyn o bryd. Roedd o'n benderfynol nad oedd o'n mynd i golli'r oen cynta eleni eto!

'Doedd neb yn fwy balch na'r ast o weld y rhan fwya o'r defaid o dan do ac ysgydwodd ei chynffon wrth gerddad ar sodla Ifor ar draws yr iard. Penderfynodd Ifor fynd i roi tro o amgylch y defaid yn y cae y tu ôl i'r sied. Jyst rhag ofn. Ond 'doedd y rheiny ddim i ddod ag wyn tan ar ôl y mwyafrif yn y sied ac roedd Ifor wedi mynd i draffa'th mawr i'w didol i gyd yn ofalus rhyw fis neu ddau ynghynt. Aeth Ifor a'r ast i'r cae yn y Daihatsu er nad oedd o'n disgw'l gweld oen. Ond yno yn y cae y cafodd Ifor ei oen cynta y flwyddyn hon eto. Y ddafad slei a ollyngodd allan o'r sied, am nad oedd hi'n bwyta, oedd y fam ac wrth un o walia'r sied yr oedd hi wedi esgor. Roedd yr oen wedi marw! Cydiodd Ifor yn ei goes a'i daflu i gefn y Daihatsu. Roedd y tymor wyna wedi dechra!

Neidiodd Ifor i'r Daihatsu a gyrru ar ôl y ddafad slei a oedd ym mhen pella'r cae erbyn hyn. Yna neidiodd allan cyn i'r Daihatsu stopio a gyrrodd yr ast ar ôl y ddafad. Ond gydag Ifor, yr ast a'r Daihatsu ar y cae, bu'r ddafad yn chwarae ring-a-ring-a-rosys yn llwyddiannus am hydoedd hyd nes y cafodd Ifor afa'l yn ei chynffon! Taflodd hi i gefn y Daihatsu, g'neud corlan sgwâr wyth troedfedd o uchder hefo bêls iddi yn y sied a'i chau hi yno. Doedd o ddim yn disgwyl ca'l oen byw neu farw gan 'run o'r defaid er'ill am o leia bythefnos arall. Ffôniodd Harri, Dros-yr-Afon a gofyn iddo am oen llywa'th. Roedd tymor wyna hwnnw yn digwydd bod ynghynt o lawar nag un Ifor, felly'r tebyg oedd y byddai ganddo oen i'w gynnig.

Sglefriodd Ifor i ganol iard Dros-yr-Afon a mynd i chwilio am Harri ym mhob sied a chwt yn y lle. Ond yn y gegin y cafodd hyd iddo yn y diwadd â'i draed i fyny o flaen y stôf.

'Di colli dy oen cynta' 'leni,' rhwbiodd Harri yr halan i'r briw.

'Fydd o 'mo'r dwytha . . .!' ebychodd Ifor trwy'i ddannadd.

'Braf ca'l gorffan,' sythodd Harri. 'Mond rhyw un neu ddwy ar ôl . . .'

'Ges ditha golledion, ma' siŵr . . .?' awgrymodd Ifor.

'Chollis i 'run. Tymor gora' 'dw i 'di ga'l eto!' broliodd Harri. 'Di ca'l lot o driplets. Fyddi di'n ca'l lot o -'

'Dw i'm yn gwbod eto!' harthiodd Ifor yn ddifynadd, 'Di'r oen gin ti?'

'Siŵr 'mod i wedi ca'l hyndryd pyrsent lambing tro yma hefyd . . .'

porthodd Harri.

Ond roedd Ifor yn gw'bod ei fod o'n deud celwydd oherwydd roedd o wedi ca'l cryn agoriad llygad wrth sbeuna yn y cytia a'r siedia gynna!

ADRAN CH**Naill ai,****5. *Aros a Myned* John Ceiriog Hughes***Aros a Myned*

Aros mae'r mynyddau mawr
 Rhuo trostynt mae y gwynt;
 Clywir eto gyda'r wawr
 Gân bugeiliaid megis cynt.
 Eto tyf y llygad dydd
 O gylch traed y graig a'r bryn,
 Ond bugeiliaid newydd sydd
 Ar yr hen fynyddoedd hyn.

Ar arferion Cymru gynt
 Newid ddaeth o rod i rod;
 Mae cenhedlaeth wedi mynd
 A chenhedlaeth wedi dod.
 Wedi oes dymhestlog hir
 Alun Mabon mwy nid yw,
 Ond mae'r heniaith yn y tir
 A'r alawon hen yn fyw.

Neu,

6. Detholiad o awdl ‘*Y Cynhaeaf*’ Dic Jones

Y CYNHAEAF (Detholiad)

Pan ddelo’r adar i gynnar ganu
 Eu halaw dirion i’ m hail-hyderu,
 A phan ddaw’r amser i’r hin dyneru,
 I braidd eni ŵyn, i briddyn wynnu,
 Af innau i gyfannu – cylch y rhod,
 Yn ôl i osod a’r ddôl yn glasu.

A rhof fy ngofal i ddyfal ddofi
 Gerwinder cyson gywreinder cwysi,
 I roi yn addod ei chyfran iddi
 O’r wledd y llynedd a roes i’ m llonni;
 Y ddôl a’ m cynhaliodd i – â’i lluniaeth,
 I hadu’i holyniaeth hyd eleni.

Lle bu ’nhadau gynt yn rhwymyn trymwaith
 Yn cerdded tolciau ar ddiwyd dalcwaith,
 Mae’r pridd yn ir gan hen gerti’r gwrtaiith,
 Ac yn llifeirio gan eu llafurwaith,
 Ac mae cloddiau goreugwaith – eu dwylo
 Eto yn tystio i’w saff artistwaith.